



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio 2026 i 2031 **Chwalu Rhwystrau: Cau'r Bwlch**

Fersiwn 1.0

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
Rhestr o Ffigurau.....	5
Awduraeth, diolchiadau a gwybodaeth gyswllt.....	5
Ein Gweledigaeth.....	6
Pam mae'n bwysig	6
Ein rhaglenni sgrinio.....	7
Pwy sy'n profi annhegwch iechyd?.....	8
Ein dull gweithredu.....	9
Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch	10
Fformatau gwybodaeth hygyrch.....	10
Digidol yn Gyntaf	11
Cyfathrebu a dewis iaith.....	11
Negeseuon sgrinio clir.....	11
Ymgyrchoedd cyhoeddus.....	12
Gweithio gyda'n gilydd	12
Nodau a chanlyniadau cyffredin.....	12
Gweithio gyda Gofal Sylfaenol.....	13
Ymgysylltu â'r gymuned i gefnogi sgrinio.....	13
Meithrin ymddiriedaeth mewn cymunedau	13
Rhwydwaith Tegwch ym maes Sgrinio	14
Defnyddio ein gwasanaethau	14
Pwy sydd angen sgrinio (Adnabod).....	15
Gofyn i bobl gymryd rhan (Gwahodd)	15
Cael eich prawf sgrinio.....	16
Os na wnaethoch chi gymryd rhan (Nodiadau atgoffa a phobl nad ydynt wedi ymateb).....	16
Mynediad i ganolfannau sgrinio	17
Dysgu, hyfforddiant a datblygiad.....	17
Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.....	17
Datblygu'r gweithlu sgrinio	18
Syniadau newydd ac arloesi.....	18
Monitro a gwerthuso ein heffaith.....	19
Adroddiadau data amserol a rheolaidd.....	19
Cipio data	19
Ein hymrwymyiadau	20
Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch	20

Gweithio gyda'n gilydd.....	20
Defnyddio ein gwasanaethau	20
Dysgu, hyfforddiant a datblygiad.....	20
Monitro a gwerthuso ein heffaith.....	21
Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?	21
Cyfeiriadau.....	23
Dyfynnu'r cyhoeddiad hwn.....	23

Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth yw y gall pawb yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu sgrinio gael mynediad at eu prawf sgrinio'n hawdd a bod ganddyn nhw gyfle teg i gymryd rhan. Rydym eisiau i bobl gael gwybodaeth glir a dibynadwy fel y gallant wneud y dewis sy'n iawn iddyn nhw.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn cydweithio â Byrddau Iechyd Lleol, y sector cymunedol a gwirfoddol, a phobl ledled Cymru drwy gydol eu bywyd i wneud i hyn ddigwydd. Mae'n adeiladu ar ein Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio 2022-2025¹ flaenorol ac yn ystyried trafodaethau byrddau ac ymgysylltu â phobl sy'n ymwneud â darparu sgrinio a phobl sy'n derbyn sgrinio i ddarganfod pa gamau y gallwn eu cymryd a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru.

I chwalu rhwystrau a chau'r bwlch, nid yw cynnig yr un gwasanaeth i bawb yn ddigon. Os oes gan bobl anghenion ychwanegol, yna mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cynnig cefnogaeth ychwanegol iddyn nhw er mynediad a deilliannau teg. Yn aml, y bobl nad ydynt yn derbyn ein cynnig sgrinio pan gânt eu gwahodd gyntaf yw'r bobl sydd fwyaf mewn perygl o gael y cyflyrau a'r clefydau rydym yn sgrinio amdanynt. Er mwyn lleihau annhegwch sgrinio, mae angen i ni ganolbwyntio ar gamau gweithredu a fydd yn helpu ein gwasanaethau i ddarparu ar gyfer pawb, fel y gallwn greu Cymru lle mae gan bawb gyfle teg i fyw'n dda a byw'n hirach mewn iechyd da. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar ein rhaglenni sgrinio presennol a sut rydym yn eu cyflwyno. Byddai disgwyl y byddai unrhyw raglenni sgrinio yn y dyfodol hefyd yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn.

Nododd ein strategaeth flaenorol bum maes gweithredu allweddol. Yn y strategaeth newydd hon, rydym wedi adnewyddu ac ail-lunio'r meysydd gweithredu allweddol hyn ar gyfer cam nesaf ein gwaith. Y meysydd gweithredu allweddol yw:

- Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch
- Gweithio gyda'n gilydd
- Defnyddio ein gwasanaethau
- Dysgu, hyfforddiant a datblygiad
- Monitro a gwerthuso effaith

Er mwyn cyflawni'r meysydd gweithredu allweddol, byddwn yn:

Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch

- Lle bo modd, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gwybodaeth syml a hawdd ei deall am sgrinio mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch fel y gall pobl benderfynu a ydynt am dderbyn eu cynnig sgrinio.
- Anelu at ddiwallu anghenion cyfathrebu ac iaith pobl gyda gwybodaeth yn eu dewis fformat.
- Symud i ddull digidol yn gyntaf i gyfathrebu â phobl.

Gweithio gyda'n gilydd

- Gweithio gyda thimau gofal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd yn y Byrddau Iechyd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cefnogi i fanteisio ar eu cynnig sgrinio
- Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid sector cymunedol a gwirfoddol i wneud yn siŵr bod gan bawb wybodaeth ddibynadwy am sgrinio
- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o sgrinio a chefnogi rhwydweithiau tegwch ym maes sgrinio

Defnyddio ein gwasanaethau

- Cynllunio ein gwasanaethau gyda thegwch a chanolbwyntio ar yr unigolyn fel egwyddorion craidd i wella hygyrchedd canolfannau sgrinio
- Datblygu cynnig apwyntiadau sgrinio sy'n fwy hyblyg a darparu ffyrdd hygyrch i bobl newid eu hapwyntiadau gyda'r nod o gyflwyno dulliau ar-lein o drefnu apwyntiad
- Datblygu awgrymiadau a chefnogaeth i bobl ar hyd y llwybr sgrinio a all gynnwys cyfathrebu sy'n ystyriol o ymddygiad, negeseuon testun ar gyfer hysbysiadau a galwadau ffôn wedi'u targedu ar gyfer y rhai nad ydynt yn ymateb

Dysgu, hyfforddiant a datblygiad

- Cefnogi'r system sgrinio i feithrin ei gwybodaeth a'i sgiliau i sicrhau bod nifer teg yn cael eu sgrinio
- Datblygu gweithlu sgrinio sy'n deall grwpiau sydd heb eu sgrinio'n ddigonol a'r ffordd orau o gynnig cefnogaeth
- Profi a gwerthuso ymyriadau newydd i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a lleihau annhegwch ym maes sgrinio, gan fod yn arloesol wrth dreialu syniadau newydd

Monitro a gwerthuso ein heffaith

- Gwellu ein gwaith cipio data i gynyddu ein dealltwriaeth o boblogaethau sydd heb eu sgrinio'n ddigonol
- Rhannu data i nodi lle mae nifer isel o bobl yn cael eu sgrinio a monitro effaith camau gweithredu i wella nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio
- Darparu adroddiadau rheolaidd a phrydlon ar berfformiad sgrinio

Bydd cyflawni tegwch ym maes sgrinio yn cymryd amser a bydd angen iddo fod yn faes gweithredu parhaus y tu hwnt i amserlen y strategaeth hon. Fodd bynnag, rydym am weld cynnydd tuag at gyflawni ein gweledigaeth, sef y gall pawb yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu sgrinio gael eu prawf sgrinio yn hawdd a chael cyfle teg i gymryd rhan. Drwy gyflawni'r ymrwymadau allweddol a amlinellir yn y strategaeth, byddwn yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r weledigaeth hon. Byddwn nawr yn rhoi'r strategaeth ar waith gyda Chynllun Gweithredu Tegwch yr Is-adran Sgrinio, i'w gyflawni gan yr Is-adran Sgrinio. Bydd hwn yn nodi pa gamau y mae angen i ni eu cymryd, pwy fydd yn eu gwneud ac erbyn pryd.

Mae'r Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio newydd hon yn uchelgeisiol. Mae'n gofyn am gamau pwrpasol ac ymroddedig o fewn yr Is-adran Sgrinio ond hefyd cefnogaeth gan ein partneriaid ar draws y system sgrinio ehangach. Ond, drwy gydweithio, gallwn chwalu rhwystrau a chau'r bwlch tegwch ym maes sgrinio.

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Sgrinio iechyd drwy gydol bywyd pobl	8
Ffigur 2: Ystyriaethau grwpiau poblogaeth a daearyddiaethau sy'n cael eu hystyried yn gyffredin wrth nodi annhegwch iechyd2	9
Ffigur 3: Pum maes gweithredu allweddol	10
Ffigur 4: Pwyntiau cyswllt â phobl a meysydd gweithredu	14

Awduraeth, diolchiadau a gwybodaeth gyswllt

Awdur: Bethan Bowden, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyfranwyr: Heather Ramessur-Marsden, Pennaeth Ymgysylltu â Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Helen Jessop, Uwch Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn yn deillio o ymdrech ar y cyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiolchgar am y cyngor arbenigol, y cyfraniadau a'r cymorth a ddarparwyd gan lawer o bobl drwy gydol y prosiect hwn. Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n mynychu ein gweithdai datblygu'r strategaeth tegwch ym maes sgrinio, gan gynnwys cynrychiolwyr:

- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Bowel Cancer UK
- Ymchwil Canser: y DU
- Tîm Iechyd y Cyhoedd BIPCTM
- Breast Cancer Now
- Tîm Iechyd y Cyhoedd BIPCF
- Race Equality First
- HMPPS
- Tîm Diogelu Iechyd/Brechu ac Imiwneiddio BIPHDd
- Tîm Iechyd y Cyhoedd BIPAB
- Gypsy and Travellers Wales
- Lingen Davies Cancer Champions
- Cynllunio Strategol BIPAB
- Anabledd Dysgu Cymru
- RNID
- Llywodraeth Cymru
- Tîm Iechyd y Cyhoedd BIPBC
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain

Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio

2026 i 2031

Chwalu rhwystrau: Cau'r Bwlch

Ein Gweledigaeth

Rydym am wneud yn siŵr y gall pawb yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu sgrinio gael mynediad at eu prawf sgrinio'n hawdd a bod ganddyn nhw gyfle teg i gymryd rhan. Rydym eisiau i bobl gael gwybodaeth glir a dibynadwy fel y gallant wneud y dewis sy'n iawn iddyn nhw.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn cydweithio â Byrddau Iechyd Lleol, y sector cymunedol a gwirfoddol, a phobl ledled Cymru drwy gydol eu bywyd i wneud i hyn ddigwydd. Mae'n adeiladu ar ein Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio 2022-2025¹ flaenorol ac yn ystyried trafodaethau byrddau ac ymgysylltu â phobl sy'n ymwneud â darparu sgrinio a phobl sy'n derbyn sgrinio i ddarganfod pa gamau y gallwn eu cymryd a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru.

Pam mae'n bwysig

Mae sgrinio yn achub bywydau drwy ddarganfod cyflyrau'n gynnar ymhlith pobl sy'n teimlo'n dda. Mae cael triniaeth yn gynnar yn arwain at ddeilliannau gwell fel y gall pobl fyw bywyd hirach ac iachach. Pan nad yw pobl yn manteisio ar eu cynnig sgrinio ac mae'r clefyd neu'r cyflwr yn cael ei ddarganfod yn ddiweddarach, mae hyn yn arwain at ddeilliannau iechyd gwaeth. Gelwir gwahaniaethau mewn deilliannau iechyd yn **anhydraddoldebau iechyd**. Nid yw rhai pobl yn manteisio ar eu cynnig sgrinio oherwydd pethau fel eu sefyllfa gymdeithasol, eu hincwm neu eu hamgylchedd. Oherwydd gellir newid y ffactorau hyn, nid yw'r gwahaniaethau mewn iechyd yn anochel. Pan fydd pobl yn cael iechyd gwaeth mewn ffyrdd sy'n annheg ac y gellir eu hosgoi, rydym yn galw'r gwahaniaethau hyn yn **annhegwch iechyd**².

Mae'r Adroddiad diweddaraf ar Annhegwch ym maes Sgrinio yn dangos bod bwlch o hyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl yng Nghymru yn y nifer sy'n derbyn cynnig sgrinio ein rhaglenni sgrinio i bobl ifanc ac oedolion. Roedd ein strategaeth flaenorol yn nodi gweledigaeth glir o'r hyn yr ydym am ei gyflawni ond nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud o ran cau'r bwlch. Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio mwy ar y camau'r ydym am eu cymryd, gyda'n partneriaid, i chwalu rhwystrau er

mwyn cau'r bwlch yn y nifer sy'n derbyn cynnig sgrinio a gwella deilliannau iechyd.

Mae cymryd rhan mewn sgrinio yn ddewis personol. Fodd bynnag, efallai na fydd pobl yn derbyn eu cynnig sgrinio oherwydd rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â materion ymarferol fel gallu cael **mynediad** i ganolfan sgrinio, a yw sgrinio **ar gael** ar amser a dyddiad sy'n addas iddyn nhw neu efallai na fydd pobl yn teimlo bod sgrinio yn ddewis **derbyniol** iddyn nhw fel rhan o'u normau a'u credoau cymdeithasol neu ddiwylliannol.


I ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi adolygu ein strategaeth flaenorol ac wedi dysgu o feysydd a weithiodd yn dda a meysydd y gellid eu gwella. Rydym hefyd wedi ystyried polisi a chanllawiau ar gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio yn ogystal â chanfyddiadau ymchwil. Rydym wedi canolbwyntio ar siarad ag ystod eang o bartneriaid a chasglu adborth ganddynt, o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, staff sgrinio, partneriaid sector cymunedol a gwirfoddol a phartneriaid elusennol, a phobl sy'n cynrychioli grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae ein partneriaid wedi adolygu a gwirio'r strategaeth hon i sicrhau ei bod yn adlewyrchu eu hawgrymiadau ac anghenion pobl yng Nghymru.

Ein rhaglenni sgrinio

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn darparu, yn monitro ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio genedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig sgrinio ledled bywyd pobl, o feichiogrwydd i oedolion hŷn. Y rhaglenni yw:

1. Bron Brawf Cymru
2. Sgrinio Coluddion Cymru
3. Sgrinio Serfigol Cymru
4. Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
5. Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
6. Sgrinio Clyw Babanod Cymru
7. Rhaglen Cymru ar gyfer Sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen (AAA)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cydlynu darpariaeth rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru a ddarperir gan dimau mamolaeth mewn Byrddau Iechyd. Mae'r strategaeth hon yn berthnasol i'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol rydym ni'n eu darparu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai unrhyw raglen sgrinio yn y dyfodol hefyd yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth a'r camau a amlinellir yn y strategaeth hon.




Ffigur 1: Sgrinio iechyd drwy gydol bywyd pobl

Mae darparu gwasanaethau sgrinio rhagorol yn flaenoriaeth strategol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef Cymru lle mae pobl yn byw bywyd hirach ac iachach a lle mae gan bawb yng Nghymru fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a lles da³. Mae darparu gwasanaethau sgrinio rhagorol yn golygu darparu gwasanaethau sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar bobl, yn brydlon, yn effeithlon ac yn deg. Er mwyn darparu hyn, mae angen cynnwys cyd-gynhyrchu, tystiolaeth ac ymgysylltiad yn nyluniad gwasanaethau.

Pwy sy'n profi annhegwch iechyd?

Gall annhegwch iechyd fodoli oherwydd yr amodau yr ydym yn gweithio, yn byw ac yn chwarae ynddynt yn ogystal â ffactorau unigol, gan gynnwys ymddygiadau nad ydynt yn iach sy'n cynyddu'r risg. Gall mynediad at wasanaethau, yn enwedig os yw pobl yn profi gwahaniaethu, arwain at ddeilliannau iechyd gwahanol hefyd. Mae angen ystyried pobl sy'n cael eu hamddiffyn o dan ddeddfau cydraddoldeb, unigolion o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ac unigolion o grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a grwpiau cynhwysiant.

Mae llawer o bobl yn perthyn i fwy nag un o'r grwpiau hyn, a all waethygu annhegwch iechyd.



Ffigur 2: Ystyriaethau grwpiau poblogaeth a daearyddiaethau sy'n cael eu hystyried yn gyffredin wrth nodi annhegwch iechyd²

Yng Nghymru, mae Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Iechyd y Cyhoedd (2017) a Cymru Iachach yn dangos cyfeiriad polisi clir tuag at degwch iechyd. Cefnogir hyn hefyd gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gymru ddod yn Genedl Marmot a mabwysiadu wyth egwyddor Marmot ar gyfer tegwch iechyd⁴.

O fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae cyfeiriad clir i weithio i leihau annhegwch iechyd. Gwelir hyn yn y llyfr sydd newydd ei gyhoeddi, "Ein dull o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd"², ac yn "Teg i Bawb", sef Cynllun Gweithredu Strategol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy Ofal Sylfaenol⁵. Rydym wedi ystyried y dulliau a'r canllawiau hyn i wneud yn siŵr bod gwaith yr Is-adran Sgrinio yn cefnogi ac yn mwyhau'r gwaith hwn.

Ein dull gweithredu

I chwalu rhwystrau a chau'r bwlch annhegwch, nid yw cynnig yr un gwasanaeth i bawb yn ddigon. Os oes gan bobl anghenion ychwanegol, yna mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cynnig cefnogaeth ychwanegol iddyn nhw er mynediad a deilliannau teg. Yn aml, y bobl nad ydynt yn manteisio ar ein cynnig sgrinio pan gânt eu gwahodd gyntaf yw'r bobl a allai fod fwyaf mewn perygl o gael y cyflyrau a'r clefydau rydym yn sgrinio amdanynt. Er mwyn lleihau annhegwch sgrinio, mae angen i ni ganolbwyntio ar gamau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu ar gyfer pawb fel y gallwn greu Cymru lle mae gan bawb gyfle teg i fyw'n dda a byw'n hirach mewn iechyd da.

Nododd ein strategaeth flaenorol bum maes gweithredu allweddol. Yn y strategaeth newydd hon, rydym wedi adnewyddu ac ail-lunio'r meysydd gweithredu allweddol hyn ar gyfer cam nesaf ein gwaith. Y meysydd gweithredu allweddol yw:

- Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch
- Gweithio gyda'n gilydd
- Defnyddio ein gwasanaethau
- Dysgu, hyfforddiant a datblygiad

Yn sylfaen i hyn y mae **monitro a gwerthuso** effaith y strategaeth i sicrhau ei bod wedi'i gyrru gan ddata ac wedi'i llywio gan wybodaeth.



Ffigur 3: Pum maes gweithredu allweddol

Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch

Fformatau gwybodaeth hygyrch

Mae angen i ni ddarparu gwybodaeth ddealladwy am sgrinio fel y gall pobl benderfynu a yw sgrinio yn iawn iddyn nhw. Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch yn ddiweddar. Mae'r Is-adran Sgrinio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwmo i gyflawni'r safonau hyn ar draws ein holl raglenni sgrinio. Serch hynny, nid dim ond bodloni'r safonau hyn yw nod darparu gwybodaeth ac adnoddau yn yr iaith a'r fformat dewisol, mae ein hymgysylltiad â phobl sy'n defnyddio neu sydd eisiau defnyddio ein gwasanaethau yn dangos i ni pa mor bwysig yw hi ein bod ni'n rhannu gwybodaeth y gallant ei deall yn hawdd.

Byddwn yn parhau i ddarparu ein holl wybodaeth ac adnoddau yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu gwybodaeth iaith Arwyddion Prydain am ein hadnoddau mwyaf poblogaidd fel y gall pobl sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain wneud dewis gwybodus am sgrinio. Rydym wedi adolygu'r wybodaeth sgrinio sydd ar gael ar gyfer ein rhaglenni sgrinio'r fron, y coluddyn ac AAA i sicrhau bod fideos iaith Arwyddion Prydain ar gael. Byddwn yn ymrwmo i gynnal adolygiadau o adnoddau iaith Arwyddion Prydain ar draws pob rhaglen sgrinio.

Byddwn hefyd yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth ar ffurf Darllen Hawdd, Print Bras, Braille a Sain. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein Canllawiau Arddull Ysgrifennu, Canllawiau Hawdd eu Darllen a'n Canllawiau Datblygu Gwybodaeth Gyhoeddus mewnol i sicrhau bod ein gwybodaeth yn gyson ac yn hawdd ei deall mewn Saesneg Plaen/Cymraeg Clir. Bydd hyn yn helpu pawb sy'n troi at ein gwybodaeth ac yn bodloni argymhelliad y Fforwm Gwybodaeth i Gleifion, sef bod gwybodaeth iechyd wedi'i hanelu at oedran darllen unigolion 9 i 11 oed⁶.

Digidol yn Gyntaf

Byddwn yn gweithio i ddatblygu ein cynnig digidol ac yn anelu at symud i ddull digidol yn gyntaf i bobl sy'n ffafrio'r ffordd hon o dderbyn gwybodaeth. Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael gwybodaeth am sgrinio yn ddigidol drwy ein gwefan neu ein sianeli digidol yn gyntaf, oni bai eu bod wedi gofyn i ni am daflenni printiedig. Mae pobl yn dweud wrthym fod yn well ganddynt dulliau digidol oherwydd, yn aml, nid ydyn nhw darllen y taflenni rydym ni'n eu hanfon. Bydd gwefan Iechyd Cyhoeddus yn darparu ffordd i ni rannu adnoddau digidol fel fideos ac animeiddiadau.

Dangosodd ein fideo ar sgrinio'r fron, 'Beth i'w Ddisgwyl' i bobl, yn enwedig pobl sy'n mynychu am y tro cyntaf neu sydd ag anghenion ychwanegol, beth sy'n digwydd yn ystod eu hapwyntiad. Ein nod fydd datblygu fideos 'Beth i'w Ddisgwyl' pellach ar gyfer apwyntiadau sgrinio eraill a ddarparwn, fel sgrinio llygaid diabetig a sgrinio AAA. Gan nad oes gan bawb fynediad at sianeli digidol, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cymunedol i gefnogi cynhwysiant digidol a helpu pobl mewn tloidi digidol yr hoffent gael mynediad at ein hadnoddau digidol, ond sydd angen cymorth. Hefyd, rydym yn deall nad yw rhai pobl eisiau defnyddio adnoddau digidol a byddwn yn parhau i ddiwallu eu hanghenion drwy'r ystod o adnoddau a gynigiwn, gan gynnwys gwybodaeth brintiedig ac ysgrifenedig.

Cyfathrebu a dewis iaith

Nid yw sicrhau bod yr adnoddau ar gael yn ddigon, mae angen y wybodaeth gywir ar bobl yn y fformat cywir adeg y pwynt cyswllt cyntaf. I wneud hyn, mae angen i ni wella ein systemau rheoli gwybodaeth fel y gallwn gofnodi dewis pobl ac yna rhannu gwybodaeth yn y dull y mae pobl yn ei ffafrio heb iddynt orfod gofyn dro ar ôl tro. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Digidol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddeall beth yw'r rhwystrau ar hyn o bryd rhag cyflawni hyn a beth y gellir ei wneud i'w goresgyn.

Nid yw tua 3% o bobl yng Nghymru yn siarad Saesneg na Chymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae hyn yn uwch yng Nghaerdydd, yng Nghasnewydd ac yn Abertawe, sef 9%, 6.5% a 5% yn y drefn honno⁷. Gallwn ddarparu cyfieithiadau i ieithoedd cymunedol os gwneir cais am wybodaeth ysgrifenedig. Fel bod cyfieithu'n fwy hygyrch drwy ddull digidol yn gyntaf, byddwn yn archwilio swyddogaethau aml-iaith ar ein gwefan i ddarganfod a yw'r rhain yn hawdd eu defnyddio ac yn effeithiol.

Negeseuon sgrinio clir

Yn ogystal â sut rydym yn rhannu gwybodaeth, mae angen i ni ystyried pa wybodaeth rydym yn ei rhannu i lywio penderfyniadau pobl. Y negeseuon pwysicaf yw beth yw sgrinio a pham mae'n cael ei gynnig. Yn rhy aml, rydym yn clywed nad yw pobl yn derbyn cynnig sgrinio gan nad oes ganddyn nhw unrhyw symptomau ac maen nhw'n teimlo'n dda. Yn rhy aml, mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn ofni'r canlyniad ac mae'n well ganddynt beidio â gwybod yn hytrach na gweld budd canfod cyflyrau'n

gynnar. Yn rhy aml, rydym yn clywed bod pobl yn meddwl bod prawf sgrinio yn ymwthiol neu'n boenus. Mae angen inni fynd i'r afael â'r camddealltwriaethau hyn gyda negeseuon clir a chyson sy'n cael eu rhannu'n eang trwy sianeli dibynadwy, fel bod pobl yn cael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt.

Mae angen i'n holl negeseuon cyfathrebu fod yn seiliedig ar wyddor ymddygiad. Mae hyn yn golygu bod angen i ni fod yn glir ynglŷn â pha ymddygiad yr ydym yn anelu ato, gyda dealltwriaeth o'r hyn a allai fod yn atal yr ymddygiad hwnnw a pha ddull a allai helpu.

Ymgyrchoedd cyhoeddus

Nid yw ymgyrchoedd cyfathrebu yn gallu mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau sy'n atal y bobl a ddylai gymryd rhan mewn sgrinio rhag derbyn eu cynnig sgrinio. Fodd bynnag, gall ymgyrchoedd ddylanwadu ar ymddygiad drwy gynyddu faint mae pobl yn ei wybod am sgrinio a pha mor frwdfrydig ydynt i fanteisio ar y cynnig. Hefyd, gall ymgyrchoedd chwarae rhan drwy wneud cymryd rhan mewn sgrinio yn norm gymdeithasol. Pan fydd tystiolaeth yn dangos y gall cyfathrebu helpu i gyflawni newid clir mewn ymddygiad, byddwn yn cyflwyno ymgyrchoedd sy'n cael eu llunio gan fewnwelediadau cynulleidfa a gwyddor ymddygiad.

Lle mae tystiolaeth y bydd ymgyrchoedd cyfathrebu ledled y boblogaeth yn helpu gydag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth i'r cyhoedd, cefnogir hyn. Mae angen hyn i godi ymwybyddiaeth o raglen sgrinio newydd, fel y rhaglen arfaethedig ar gyfer sgrinio canser yr ysgyfaint neu os bydd newid mawr i raglen sgrinio bresennol, fel gostwng oedran sgrinio'r coluddyn i bobl 50 oed. Yn achos rhaglenni sgrinio presennol, mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod ymwybyddiaeth yn dda yn aml, ond gall rhwystrau penodol fod ar waith sy'n atal pobl rhag mynychu. Mae hyn yn gofyn am ddull mwy targedig lle gellir teilwra ein negeseuon cyfathrebu i ddarparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen ar bobl.

Rydym yn cydnabod bod lefelau gwybodaeth, cymhelliant a chyfle i gymryd rhan mewn sgrinio yn aml yn is ymhlith y rhai sy'n llai tebygol o gymryd rhan. Dyna pam mae ein hymgyrchoedd wedi'u pwysoli tuag at gyrraedd ac ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Mae hyn yn golygu sicrhau bod ein negeseuon, ein deunyddiau a'n sianeli cyfathrebu yn hygyrch, yn briodol yn ddiwylliannol ac yn cael eu llunio gan brofiadau'r bobl rydym yn ceisio ymgysylltu â nhw.

Gweithio gyda'n gilydd

Rydym am barhau i weithio gydag eraill fel rhan o rwydwaith sgrinio ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd fel meddygon a nyrsys mewn gofal sylfaenol, ond hefyd pobl sy'n gweithio gyda chymunedau mewn llywodraeth leol, y sector cyhoeddus ac elusennau.

Nodau a chanlyniadau cyffredin

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid mewn Byrddau Iechyd yng Nghymru i wneud yn siŵr ein bod yn cydweithio'n effeithiol gyda nodau ac uchelgeisiau cyffredin. Byddwn yn cefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu a fframweithiau strategol a gynhyrchir ar y cyd sydd â'r nod cyffredin o wella lefelau canfod clefydau'n gynnar er mwyn gwella deilliannau iechyd. Byddwn yn parhau i gefnogi'r

Grŵp Sgrinio ac Anghydraddoldeb sy'n cydlynw â thimau lechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd a, hefyd, yn cefnogi grwpiau llywio a rhwydweithiau clinigol penodol i gyflwr y Byrddau Iechyd ledled Cymru.

Gweithio gyda Gofal Sylfaenol

Rydym yn croesawu *Teg i Bawb*, sef y Cynllun Gweithredu Strategol newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o fewn Gofal Sylfaenol a ddatblygwyd gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hwn yn amlygu'r rhan hanfodol y mae Gofal Sylfaenol yn ei chwarae wrth leihau anghydraddoldebau iechyd fel y pwynt cyswllt mwyaf hygyrch o fewn y system iechyd⁵. Mae Gofal Sylfaenol yn rhan o'u cymunedau ac mae'r bobl y maen nhw'n eu gwasanaethu yn ymddiried ynddyn nhw. Byddem yn anelu at gryfhau ein cysylltiad â Gofal Sylfaenol a gweithio'n agos gyda chlystyrau meddygon teulu i gefnogi'r nifer sy'n cael eu sgrinio. Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym pa mor bwysig yw cymeradwyaeth meddygon teulu ar gyfer gwahoddiadau sgrinio a pha mor effeithiol y gall fod. Hoffem weithio gyda chlystyrau meddygon teulu i ddatblygu ymyriadau sy'n diwallu anghenion eu cleifion. Rydym yn deall bod angen i'n modelau cyflawni fod yn fwy hyblyg a bod angen i ni fabwysiadu dulliau arloesol gyda gwahanol ffyrdd o weithio.

Byddwn yn anelu at ddatblygu cysylltiadau â meddygfeydd teulu sy'n gwasanaethu'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu tan-sgrinio. Byddwn hefyd yn cysylltu â Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd wrth iddynt gael eu datblygu ledled Cymru a chlinigau allgymorth a ddarperir ar gyfer grwpiau Iechyd Cynhwysiant.

Ymgysylltu â'r gymuned i gefnogi sgrinio

Hefyd, byddwn yn cydweithio â'n partneriaid mewn sectorau eraill sydd â diddordeb mewn cefnogi pobl i gael eu sgrinio. A ninnau'n arbenigwyr ar sgrinio, mae angen i ni rannu ein gwybodaeth gyda phobl nad ydyn nhw'n gwybod llawer am sgrinio, neu y mae sgrinio yn rhan yn unig o'u gwaith. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sgrinio rheolaidd i bobl sy'n gweithio mewn cymunedau fel y gallant weithredu fel cefnogwyr sgrinio yn lleol. Byddant yn cael eu cefnogi gan ddiweddariadau am sgrinio drwy fwletinau cyfathrebu a sesiynau diweddarau ar-lein rheolaidd.

Bydd gan ein gwaith gyda thimau cymunedol ddull sy'n seiliedig ar asedau, gan adeiladu ar gryfderau presennol mewn cymunedau. Bydd ein cynllun ymgysylltu cymunedol yn canolbwyntio ar ardaloedd lle mae nifer isel o bobl yn manteisio ar y cynnig sgrinio neu ar gymunedau lle gwyddom fod rhwystrau rhag manteisio ar y cynnig sgrinio. Ni allwn fynychu pob digwyddiad cymunedol, ond byddwn yn gweithio gyda'n bwrdd iechyd lleol a'n partneriaid cymunedol lleol i wneud yn siŵr ein bod yn targedu ein gwaith ymgysylltu cymunedol yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf. I lawer o'n cymunedau lle nad yw digon o bobl yn cael eu sgrinio, gall fod diffyg ymddiriedaeth mewn gweithwyr iechyd proffesiynol oherwydd anghyfiawnderau yn y gorffennol. Rydym am weithio gydag aelodau ac arweinwyr y gymuned i wellau eu sgiliau, fel eu bod yn gyfforddus ac yn hyderus i rannu ein negeseuon sgrinio.

Meithrin ymddiriedaeth mewn cymunedau

Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â chamwybodaeth a meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth o'n negeseuon sgrinio craidd. Pobl y gellir ymddiried ynddynt mewn cymunedau sydd orau i rannu ein


negeseuon am sgrinio. Byddwn yn gweithio o fewn cymunedau: gan weithio gydag aelodau'r gymuned, arweinwyr cymunedol a ffydd, a gweithwyr iechyd proffesiynol dibynadwy i ddatblygu cynnwys sgrinio. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gan bobl yn eu cymunedau mewn ffordd y gallant ei deall, gan bobl y maent yn ymddiried ynddynt. Lle bo galw lleol am wybodaeth mewn ieithoedd cymunedol, bydd hyn yn cael ei gefnogi, gyda ffocws ar ddull digidol fideos ac animeiddiadau i fynd i'r afael â heriau llythrennedd. Dywed pobl mewn cymunedau wrthym fod fideos ac animeiddiadau yn well ganddynt, yn hytrach na gwybodaeth ysgrifenedig, gan y gellir rhannu'r rhain yn hawdd trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol fel WhatsApp.

Rhwydwaith Tegwch ym maes Sgrinio

Dywedodd adborth yn ystod ein sesiynau ymgysylltu wrthym nad oedd gan ein partneriaid mewn sefydliadau sector cymunedol a gwirfoddol neu elusennau ddealltwriaeth gyfredol o'r hyn yr oeddem yn ei wneud yn yr Is-adran Sgrinio i fynd i'r afael ag annhegwch sgrinio a chyflawni ein Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio flaenorol. Ar gyfer cam nesaf y strategaeth, byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Strategol newydd ar Degwch ym maes Sgrinio, a fydd yn cyfarfod bob chwe mis. Bydd y Rhwydwaith newydd hwn yn cynnwys yr Is-adran Sgrinio a phartneriaid sector cymunedol a gwirfoddol ehangach i roi cyfle i rannu gwybodaeth gan yr Is-adran Sgrinio am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd i gyflawni ein cynllun gweithredu. Hefyd, bydd yn rhoi cyfle i'n partneriaid roi adborth uniongyrchol i ni ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei gryfhau o fewn ein dull gweithredu.

Defnyddio ein gwasanaethau

Rydym wedi mapio'r llwybr i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac wedi nodi rhwystrau ar wahanol adegau. Nod y strategaeth newydd hon fydd ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny gan ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio, technolegau newydd a datblygiadau digidol.



Ffigur 4: Pwyntiau cyswllt â phobl a meysydd gweithredu

Pwy sydd angen sgrinio (Adnabod)

Bydd ein systemau'n dod o hyd i bobl sydd angen eu sgrinio os ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu. Gallwn hefyd gynnig sgrinio i bobl nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu os byddant yn cysylltu â gwasanaeth sgrinio'n uniongyrchol. Fodd bynnag, efallai na fydd pobl mewn grwpiau iechyd cynhwysiant fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid neu bobl sy'n ddigartrefedd, wedi cofrestru gyda meddyg teulu neu ni fydd ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yn gweithio. Gallai hyn eu hatal rhag cael eu gwahodd i sgrinio. Gall pobl fod wedi cofrestru gyda meddyg teulu ond ni fyddant yn mynd i'r feddygfa honno neu gallant fod wedi symud allan o'r ardal ond heb ailgofrestru. O fewn ein gwasanaethau sgrinio, mae angen i ni ddatblygu proses gyson i bobl sy'n wynebu'r rhwystrau hyn dderbyn gwahoddiad sgrinio fel y gallant gymryd rhan. Ein nod fydd profi ffyrdd newydd o weithio fel y gall hyn ddigwydd a pharatoi i fod yn arloesol yn ein dull gweithredu.

Gall hyn olygu gweithio gyda thimau gofal sylfaenol i gefnogi pobl i gofrestru gyda meddyg teulu ar gyfer yr ystod eang o fuddion iechyd y mae hynny'n ei chynnig. Gallwn hefyd weithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda grwpiau iechyd cynhwysol fel Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i gynyddu dealltwriaeth o sgrinio a sut y gellir cael mynediad ato.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwahodd pobl i gael eu sgrinio yn ôl y rhywedd sydd wedi'i nodi gyda'u meddyg teulu. I bobl mewn cymunedau traws neu anneauidd, gall eu rhyw adeg eu geni fod yn wahanol i'w rhywedd ar gofnodion eu meddyg teulu. Ar gyfer y rhaglenni sgrinio sy'n eich gwahodd yn seiliedig ar b'un a ydych chi'n wryw neu'n fenyw, gallai hyn olygu ein bod ni'n hepgor pobl. Ar hyn o bryd, mae angen i bobl sy'n draws neu'n anneauidd roi gwybod i ni a oes angen sgrinio arnyn nhw. Trwy weithio gyda'r gymuned draws a'n partneriaid yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, hoffem ddarganfod ffordd o wahodd pobl yn y ffordd fwyaf derbyniol sy'n diwallu eu hanghenion.

Gofyn i bobl gymryd rhan (Gwahodd)

Ein nod fydd symud i ddull digidol yn gyntaf ar gyfer gwahoddiadau i sgrinio. Nid yw'r ffordd bresennol o anfon llythyrau drwy'r post yn addas at y diben mwyach. Byddwn yn mynd ati'n weithgar i geisio gweithio gyda datblygwyr Apiau GIG Cymru i ddefnyddio swyddogaethau presennol yn yr Ap, megis fel hysbysiadau gwrthio i bobl, er mwyn rhoi gwybod iddynt fod angen iddynt gael eu sgrinio. Pan fydd pobl wedi dweud wrthym y byddai'n well ganddynt dderbyn gwahoddiadau drwy'r e-bost, byddwn yn gweithio i ddarparu hysbysiadau e-bost lle bo hyn yn bosibl o fewn ein systemau yn hytrach na llythyr drwy'r post. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn cyrraedd yr unigolyn yn gynt ac yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Bydd ar hyn angen cefnogaeth ein tîm Gwasanaethau Digidol a phartneriaid eraill, gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru, i symud ymlaen.

Efallai y bydd pobl yn bwriadu mynychu eu hapwyntiad sgrinio, ond gall bywyd prysur olygu nad yw sgrinio yn flaenoriaeth. Er mwyn helpu pobl, ein nod fydd darparu negeseuon atgoffa drwy SMS cyn apwyntiad wedi'i drefnu er mwyn annog pobl i fynychu.

Bydd ar bobl sy'n cael eu gwahodd am y tro cyntaf a'r tro olaf i gael eu sgrinio angen gwybodaeth wahanol i'r rhai sydd wedi mynychu o'r blaen ac sy'n gwybod beth i'w ddisgwyl. Efallai y bydd ar bobl sy'n cael eu gwahodd am y tro cyntaf angen rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn apwyntiad, sut beth yw'r prawf a, hefyd, pam y gallai fod o fudd iddynt ar yr adeg hon yn eu bywyd. I bobl sy'n cael eu gwahodd am y tro olaf, mae angen iddyn nhw ddeall beth sy'n digwydd nesaf ac at

bwy i droi os bydd ganddyn nhw unrhyw symptomau neu broblemau. Byddwn yn datblygu gwybodaeth â mwy o ffocws i bobl sy'n mynd i gael eu sgrinio am y tro cyntaf a'r tro olaf. Bydd hyn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad i sicrhau bod dechrau a diwedd y daith sgrinio yn ddiogel ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cael eich prawf sgrinio

Byddwn yn symud i ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn er mwyn cynnig sgrinio sy'n fwy cyfleus ac yn haws i bobl gael ato. Gan fod pob rhaglen sgrinio yn cael ei chyflwyno mewn ffordd wahanol, ni fydd hyn yr un peth ar gyfer pob rhaglen. Ar gyfer rhaglenni sgrinio y bydd angen apwyntiad arnoch gyda ni, ceisiwn ei gwneud hi'n haws newid apwyntiad, er enghraifft trwy drefnu ar-lein. Rydym yn deall manteision posibl darparu mynediad hyblyg i'n gwasanaethau megis drwy wasanaethau galw heibio. Pan fyddwn yn gallu cadw at ein gofynion cyfreithiol, pan fydd hi'n ymarferol i'w wneud a phan fydd yn ofal clinigol diogel, gellir cynnal cynllun peilot ar hyn. Ystyrir hyn yn gyntaf mewn ardaloedd lle mae nifer isel o bobl yn manteisio ar y cynnig sgrinio i weld a yw ffordd wahanol o gael mynediad at ein gwasanaethau yn helpu i chwalu rhwystrau. Mae angen i ni hefyd sicrhau, wrth i ni ddatblygu ein systemau TG sgrinio, ein bod yn ystyried yr angen i gynnig apwyntiadau mwy hyblyg yn eu dyluniad fel y gallwn gynnig y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Mae ein gwasanaeth sgrinio llygaid diabetig wedi cynnig oriau agor estynedig y clinig gyda'r nos ac ar ddydd Sadwrn i gyfranogwyr. Byddwn yn adolygu'r gwerthusiad o flwyddyn gyntaf y ddarpariaeth hon i sefydlu a yw hyn yn helpu pobl na fyddent fel arall wedi mynychu sgrinio i fanteisio ar eu cynnig. Lle bo'n ymarferol, bydd gwasanaethau sgrinio yn cynnig apwyntiadau sgrinio cynnar a hwyr i sicrhau y gall pobl sy'n gweithio neu sydd mewn addysg fanteisio ar eu cynnig sgrinio.

Bydd disgwyl o hyd i'n gwasanaethau sgrinio ddarparu addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. Yn fwy na hyn, rydym am i'n gwasanaethau ddarparu gofod cynhwysol a chroesawgar. Lle bo'n bosibl, byddwn yn ceisio cynnig ymweliad ymlaen llaw ag un o'n lleoliadau sgrinio sy'n ganolfannau sefydlog, helpu pobl i drefnu apwyntiadau cynnar neu hwyr pan allai canolfannau fod yn dawelach a chynnig apwyntiadau hirach i bobl y gall fod angen ychydig mwy o amser arnynt i rannu eu hanghenion a deall beth sy'n digwydd. Yn ategu hyn bydd ein hadnoddau digidol fel y fideos 'Beth i'w ddisgwyl', sy'n dangos beth sy'n digwydd mewn canolfannau sgrinio ar ffurf 'ymweliad ymlaen llaw' rhithwir.

Os na wnaethoch chi gymryd rhan (Nodiadau atgoffa a phobl nad ydynt wedi ymateb)

Efallai na fydd pobl yn ymateb i'w gwahoddiad am lawer o resymau gwahanol. Ar ôl cymryd yr holl gamau a amlinellwyd uchod i gefnogi pobl i fynychu, os na fydd pobl yn manteisio ar eu cynnig, yna mae angen rhywbeth arall. Nid yw tegwch yn ymwneud â thrin pawb yr un fath, mae'n ymwneud â darparu mwy o gefnogaeth i'r bobl sydd â'r angen mwyaf. I bobl nad ydynt yn ymateb i'n gwahoddiadau, byddwn yn anfon nodyn atgoffa fel ysgogiad iddynt fanteisio ar eu cynnig. Trwy ddull digidol yn gyntaf, gallai hyn fod ar ffurf hysbysiadau ar ap y GIG a negeseuon atgoffa SMS. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o brosiectau diweddar yn yr Is-adran Sgrinio, gan gynnwys ymyrraeth trwy alwad ffôn i bobl nad oeddent yn mynychu eu hapwyntiadau, wedi dangos pa mor effeithiol y gall galwadau ffôn fod i gefnogi pobl i fanteisio ar eu prawf sgrinio neu brawf diagnostig.

Byddwn yn archwilio rôl llyw-wyr cleifion o fewn ein rhaglenni sgrinio i bobl nad ydynt yn ymateb yn dilyn prawf sgrinio positif. Byddwn hefyd yn gwerthuso, ac yn anelu at gyhoeddi'r gwerthusiad, o'n hymyrraeth dros y ffôn ym maes AAA i rannu'r effaith gadarnhaol y mae hyn wedi'i chael ar y nifer sy'n cael eu sgrinio a lleihau annhegwch sgrinio.

Mynediad i ganolfannau sgrinio

Pan fyddwn yn cynllunio ein gwasanaethau, byddwn yn ystyried pa mor hawdd fydd hi i bobl gael mynediad i'n gwasanaethau. Gan ddefnyddio egwyddorion tegwch a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ein nod yw gofal yn agos at adref ac yng nghanol cymunedau lleol. Mae ein canolfannau sgrinio yn Nhŷ Kimberly, Caerdydd a Thŷ Rhos, Aberpennar yn darparu amgylcheddau clinigol o ansawdd uchel ar gyfer apwyntiadau sgrinio. Lle bo cyfle i gydleoli gwasanaethau fel rhan o ddull cymunedol o'r cychwyn, byddwn yn eiriol dros gynnwys gwasanaethau sgrinio. Mae hyn yn helpu cleifion drwy leihau amser teithio ac yn helpu ein timau clinigol i fod yn rhan o deulu'r GIG.

Lle mae ein model gwasanaeth yn nodi hynny, gallwn ddefnyddio unedau sgrinio symudol i ddarparu gwasanaethau. Gellir lleoli'r unedau hyn yng nghanol cymunedau a lleihau amser teithio i gyfranogwyr yn ogystal â darparu lleoliad cyfleus a chyfarwydd sy'n cefnogi pobl i fanteisio ar eu cynnig sgrinio. Rydym yn deall y problemau a wynebwr mewn cymunedau gwledig o ran amseroedd teithio a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod amseroedd teithio i'n lleoliadau sgrinio yn dderbyniol.

Dysgu, hyfforddiant a datblygiad

Ni allwn leihau rhwystrau rhag sgrinio a chau'r bwlch mewn tegwch sgrinio ar ein pen ein hunain. Mae angen i ni weithio fel rhan o rwydwaith ehangach gan ddefnyddio ein sgiliau arbenigol i feithrin gwybodaeth a sgiliau ar draws y system sgrinio gyfan.

O fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae angen gweithlu sgrinio cynhwysol arnom sy'n meddwl am annhegwch iechyd a sut y gallant weithio i'w leihau yn eu gwaith bob dydd. Hefyd, mae angen gweithlu ehangach y GIG arnom a fydd yn gweithio gyda ni i gymryd camau bob dydd i gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio.

Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol

Er mwyn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i feddu ar y wybodaeth a'r hyder i gael sgysiau bob dydd am sgrinio, rydym wedi gweithio gyda thîm cenedlaethol Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. Mae sgrinio pan gewch wahoddiad bellach yn un o'r ymddygiadau iach y gall gweithwyr iechyd proffesiynol eu trafod gyda chleifion. Mae Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i gael sgysiau am sgrinio ac mae'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyfeirio cleifion at ein gwasanaethau.

Er mwyn helpu pobl nad ydynt yn weithwyr iechyd proffesiynol i feddu ar y wybodaeth a'r hyder i gynnal sgysiau gyda phobl am sgrinio, byddwn yn eu hannog i fanteisio ar ein hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o sgrinio a ddarperir gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio. Drwy wella sgiliau staff ar draws

ystod eang o gwmnïau a sefydliadau gwahanol, gallwn godi ymwybyddiaeth o sgrinio a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol sy'n arwain at weithlu medrus.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno rhaglenni sgrinio, ond rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn Byrddau Iechyd sy'n cefnogi iechyd a lles pobl sy'n byw yn eu cymunedau. Er mwyn cefnogi timau Byrddau Iechyd i ddatblygu ymyriadau a champau gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch ym maes sgrinio, byddwn yn datblygu tudalennau gwe ar SharePoint sy'n benodol i raglenni sgrinio ac sy'n darparu data, tystiolaeth a syniadau pwysig ar gyfer arloesi y gall cydweithwyr mewn Byrddau Iechyd eu defnyddio. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fapiau tystiolaeth a ddatblygwyd gan ein Gwasanaeth Tystiolaeth yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a fydd yn nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio, gan ganolbwyntio ar grwpiau nad ydynt yn cael eu sgrinio'n ddigonol.

Datblygu'r gweithlu sgrinio

Mae angen i ni hefyd ddatblygu gweithlu sgrinio sy'n deall grwpiau sydd heb eu sgrinio'n ddigonol a'r ffordd orau o gynnig cefnogaeth. Mae angen i bob un o'n staff feddu ar ddealltwriaeth o annhegwch iechyd fel y gallant ddarparu gofal tosturiol i'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn ogystal, mae angen inni sicrhau bod pobl yn gymwys yn ddiwylliannol i ddeall pobl o gymunedau lleiafrifol neu'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu ac iaith ychwanegol. Mae angen i'n staff fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma a deall y gall cael mynediad at sgrinio ysgogi profiadau negyddol o'r gorffennol i rai pobl.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu o fewn pob rhaglen yn yr Is-adran Sgrinio. Nod y rôl hon yw creu pwynt cyswllt i bobl ag anabledd dysgu a'r rhai sy'n gofalu amdanynt o fewn gwasanaethau sgrinio. Bydd yr Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu yn helpu i chwalu rhwystrau, gan roi i bobl y wybodaeth y mae ei hangen arnynt mewn fformatau hygyrch a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, megis amseroedd apwyntiadau hirach. Byddwn yn gwerthuso effaith yr Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu i weld a ydynt wedi gwella'r profiad i bobl ag anabledd dysgu. Byddwn yn deall hefyd a yw hyn wedi bod yn gyfle cadarnhaol i'n staff ddatblygu mwy o sgiliau a phrofiad newydd.

Syniadau newydd ac arloesi

Rydym am fod yn arweinydd o'r radd flaenaf mewn datblygiadau a thechnolegau newydd. Ein nod fydd cymryd rhan weithredol mewn cydweithrediadau â phartneriaid academiaidd i ddatblygu a phrofi ffyrdd newydd o gefnogi pobl i fanteisio ar eu cynnig sgrinio gyda ffocws ar annhegwch ym maes sgrinio. Gall hyn fod drwy dechnolegau newydd fel offer deallusrwydd artiffisial (AI) a, hefyd, drwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned fel ymyriadau seiliedig ar ffydd sy'n ein dwyn yn agosach at gymunedau.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU wedi argymhell cyflwyno hunan-samplu i pobl nad ydynt wedi ymateb i'w gwahoddiad am sgrinio serffigol. Mae tystiolaeth dda y bydd hyn yn helpu pobl sy'n cael eu tan-sgrinio i fanteisio ar eu cynnig sgrinio, gan fod modd gwneud y prawf yn eich cartref eich hun. Ein nod yw cyflwyno hyn yng Nghymru yn 2026 a byddwn yn adolygu a yw'n helpu pobl o'n cymunedau nad ydynt yn cael eu sgrinio'n ddigonol i gymryd rhan mewn sgrinio serffigol a chanfod canserau serffigol yn gynharach.

Monitro a gwerthuso ein heffaith.

Mae angen i ddata a deallusrwydd gyfeirio ein camau gweithredu i leihau'r rhwystrau a chau'r bwlch mewn annhegwch sgrinio. Mae angen i ni ddeall pwy sy'n derbyn cynigion sgrinio a phwy sydd ddim. Mae hyn yn gofyn am systemau gwybodaeth sy'n cofnodi gwybodaeth bwysig yn gyson am bobl, a fydd yn ein helpu i ddeall mwy am eu hanghenion.

Adroddiadau data amserol a rheolaidd

Mae ein Hadroddiadau Blyneddol ar sgrinio rheolaidd yn bwysig i'w rhannu gyda phartneriaid er mwyn deall pa mor dda yr ydym yn perfformio wrth ddarparu ein gwasanaethau. Mae Adroddiad Annhegwch yr Is-adran Sgrinio yn amlygu gwahaniaethau yn y nifer sy'n derbyn cynigion sgrinio rhwng gwahanol grwpiau a cymunedau a mae'n helpu i nodi ble y byddai orau i dargedu ein gweithredu ar y cyd. Mae angen i ni sicrhau bod yr adrodd hwn yn rheolaidd, yn ddibynadwy ac yn cael ei rannu'n gyson.

Ein nod yw bod nifer uchel o bobl yn manteisio ar gynigion sgrinio, gan fodloni ein safonau perfformiad allweddol ar draws pob rhaglen sgrinio, gyda llai o wahaniaeth yn y nifer sy'n cael eu sgrinio ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth. Er mwyn monitro hyn, byddwn yn parhau i gynhyrchu adroddiadau a fydd yn cyflwyno'r mesuriadau allweddol canlynol yn gyson:

- Faint o bobl sy'n derbyn eu cynnig sgrinio – (% Cwmpas/Nifer sy'n derbyn cynnig sgrinio)
- Faint o bobl sy'n derbyn eu cynnig sgrinio yn y cymunedau mwyaf difreintiedig – (% Cwmpas/Nifer sy'n derbyn yn y cwintel mwyaf difreintiedig)
- Y gwahaniaeth yn y nifer sy'n derbyn cynnig sgrinio rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau lleiaf difreintiedig (% gwahaniaeth absoliwt rhwng y cwintel difreintedd cyntaf a'r 5ed cwintel)
- Y gwahaniaeth yn y nifer sy'n cael eu sgrinio rhwng gwahanol grwpiau oedran
- Y gwahaniaeth yn y nifer sy'n cael eu sgrinio rhwng dynion a menywod

Hefyd, byddwn yn rhannu data gyda thimau Iechyd y Cyhoedd Byrddau Iechyd mewn ffordd fwy amserol. Bydd y data sy'n cael ei rannu ar lefel y manylder am eu poblogaeth y mae ei hangen arnynt. Ein nod yw cynhyrchu dangosfyrddau data y gellir eu defnyddio mewn ffordd ryngweithiol ac sy'n hawdd eu deall. Bydd hyn yn helpu timau lleol i fonitro tueddiadau a phennu effaith unrhyw brosiectau lleol sy'n cael eu rhoi ar waith.

Cipio data

Mae ein hadrodd cyfredol ar ddata yn seiliedig ar y ffactorau pobl y mae'r Is-adran Sgrinio yn gwybod amdanynt ar hyn o bryd o fewn ein systemau clinigol. Er mwyn ein helpu i ddeall gwahaniaethau eraill, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gysylltu ein data â systemau neu ffynonellau data eraill y GIG fel y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt. Gallai'r gofyniad newydd i bractisau meddygon teulu ddatblygu cofrestrau iechyd cynhwysiant fod yn gyfle i gysylltu'r data hwn â'n cofnodion fel ein bod yn deall pwy o blith grwpiau iechyd cynhwysiant sy'n manteisio ar ein cynnig sgrinio.

Lle bo'n bosibl yn ein systemau TG sgrinio, byddwn yn gofyn i bobl adrodd am eu hethnigrwydd ac yn ei gofnodi er mwyn adeiladu ein dealltwriaeth. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r profiad sgrinio ar gyfer pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ein nod fydd cysylltu ein data â systemau ehangach

y GIG. Byddwn yn cefnogi defnyddio Ap GIG Cymru ar gyfer hunan-adrodd ethnigrwydd a'r cyfle i gysylltu data sgrinio â'r Ap fel y gellir cynnwys hyn mewn dadansoddiadau yn y dyfodol.

Ein hymrwymiaadau

Datblygu a rhannu gwybodaeth hygyrch

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Lle bo modd, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gwybodaeth syml a hawdd ei deall am sgrinio mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch fel y gall pobl benderfynu a ydynt am dderbyn eu cynnig sgrinio.
- Anelu at ddiwallu anghenion cyfathrebu ac iaith pobl.
- Symud i ddull digidol yn gyntaf i gyfathrebu â phobl.

Gweithio gyda'n gilydd

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda thimau gofal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd yn y Byrddau Iechyd i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cefnogi i fanteisio ar eu cynnig sgrinio
- Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid sector cymunedol a gwirfoddol i sicrhau bod pawb yn cael gwybodaeth ddibynadwy am sgrinio
- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o sgrinio a chefnogi rhwydweithiau tegwch ym maes sgrinio

Defnyddio ein gwasanaethau

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynllunio ein gwasanaethau gyda thegwch a chanolbwyntio ar yr unigolyn fel egwyddorion craidd i wella hygyrchedd canolfannau sgrinio
- Datblygu cynnig apwyntiadau sgrinio sy'n fwy hyblyg a darparu ffyrdd hygyrch i bobl newid eu hapwyntiadau gyda'r nod o gyflwyno dulliau ar-lein o drefnu apwyntiad
- Datblygu awgrymiadau a chefnogaeth i bobl ar hyd y llwybr sgrinio a all gynnwys cyfathrebu sy'n ystyriol o ymddygiad, negeseuon testun ar gyfer hysbysiadau a galwadau ffôn wedi'u targedu ar gyfer y rhai nad ydynt yn ymateb

Dysgu, hyfforddiant a datblygiad

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi'r system sgrinio i feithrin ei gwybodaeth a'i sgiliau i sicrhau bod nifer teg yn cael eu sgrinio
- Datblygu gweithlu sgrinio sy'n deall grwpiau sydd heb eu sgrinio'n ddigonol a'r ffordd orau o gynnig cefnogaeth
- Profi a gwerthuso ymyriadau newydd i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio a lleihau annhegwch ym maes sgrinio, gan fod yn arloesol wrth dreialu syniadau newydd

Monitro a gwerthuso ein heffaith

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gwellu ein gwaith cipio data i gynyddu ein dealltwriaeth o boblogaethau sydd heb eu sgrinio'n ddigonol
- Rhannu data i nodi lle mae nifer isel o bobl yn cael eu sgrinio a monitro effaith camau gweithredu i wella nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio
- Darparu adroddiadau rheolaidd a phrydlon ar berfformiad sgrinio

Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Mae'r ymrwymïadau a nodwyd yn y strategaeth wedi cael eu datblygu drwy adolygu tystiolaeth ac arfer gorau yn ogystal â thrwy ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i ddweud wrthym beth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid dim ond ein gweithredoedd ni sy'n dylanwadu ar benderfyniad unigolyn i dderbyn ei gynnig sgrinio. Bydd patrymau ymddygiad ehangach mewn cymdeithas a gweithgareddau a gyflawnir gan bartneriaid fel cydweithwyr mewn Byrddau Iechyd a phartneriaid sector cymunedol a gwirfoddol yn dylanwadu arno.

Bydd cyflawni tegwch ym maes sgrinio yn cymryd amser a bydd angen iddo fod yn faes gweithredu parhaus o fewn yr Is-adran Sgrinio y tu hwnt i amserlen y strategaeth hon. Fodd bynnag, rydym am weld cynnydd tuag at gyflawni ein gweledigaeth, sef y gall pawb yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu sgrinio gael eu prawf sgrinio yn hawdd a chael cyfle teg i gymryd rhan. Rydym eisïau i bobl gael gwybodaeth glir a dibynadwy fel y gallant wneud y dewis sy'n iawn iddyn nhw. Drwy gyflawni'r ymrwymïadau allweddol a amlinellir yn y strategaeth, byddwn yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r weledigaeth hon.

Ein camau nesaf fydd rhoi'r strategaeth ar waith gyda Chynllun Gweithredu Tegwch yr Is-adran Sgrinio, i'w gyflawni gan yr Is-adran Sgrinio. Bydd hwn yn nodi pa gamau y mae angen i ni eu cymryd, pwy fydd yn eu gwneud ac erbyn pryd. Er mwyn ein helpu i gadw ar y trywydd iawn, byddwn yn nodi mesuriadau proses ac yn ymgorffori gwerthuso o fewn y Cynllun Gweithredu Tegwch ym maes Sgrinio o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a ydym yn cyflawni ein hamcanion. Byddwn yn parhau i adrodd ar ein mesuriadau canlyniadau drwy ein data perfformiad rheolaidd, gan ddeall nad dim ond y Cynllun Gweithredu Tegwch ym maes Sgrinio fydd yn dylanwadu ar y canlyniad, sef bod pobl sy'n derbyn eu cynnig sgrinio.

Bydd y Grŵp Tegwch ym maes Sgrinio yn yr Is-adran Sgrinio, sy'n adrodd i Uwch Dîm Rheoli'r Is-adran Sgrinio, yn monitro'r Cynllun Gweithredu Tegwch ym maes Sgrinio. Bydd y Cynllun Gweithredu Tegwch ym maes Sgrinio yn destun craffu gan Sgrinio ac Anghydraddoldeb y Byrddau Iechyd a chan y Rhwydwaith Tegwch ym maes Sgrinio arfaethedig. Bydd y craffu pwysicaf, serch hynny, gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Byddwn yn monitro adborth, cwynion a chanmolïaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn agos, yn ogystal â phrofiad defnyddwyr gwasanaethau negeseuon testun er mwyn nodi unrhyw rwystrau y mae angen eu hadolygu.

Mae'r Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio newydd hon yn uchelgeisiol. Mae'n gofyn am gamau gweithredu pwrpasol ac ymroddedig o fewn yr Is-adran Sgrinio ond hefyd cefnogaeth ar draws Cyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyfan a chan ein

partneriaid ar draws y system sgrinio ehangach. Ond mae'r camau hyn yn angenrheidiol i greu Cymru lle y gall pawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio gael eu prawf sgrinio yn hawdd a chael cyfle teg i gymryd rhan.

Drwy gydweithio, gallwn chwalu rhwystrau a chau'r bwlch tegwch ym maes sgrinio.

Cyfeiriadau

1. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2022. Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio 2022-2025. Ar gael ar-lein yn: [Strategaeth Tegwch ym maes Sgrinio 2022-2025.docx](#)
2. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2026. Ein dull o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd
3. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2023. Ein Strategaeth Hirdymor 2023-2035. Ar gael ar-lein yn: <https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/gweithio-gydan-gilydd-ar-gyfer-cymru-iachach/phw-ein-strategaeth-hirdymor-pdf/>
4. Sefydliad Tegwch Iechyd. 2020. Health Equity in England: The Marmot Review 10 years on. Ar gael ar-lein yn: [the-marmot-review-10-years-on-full-report.pdf](#)
5. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2025. Teg i Bawb: Fair For all. Ar gael ar-lein yn: primarycareone.nhs.wales/topics/teg-i-bawb-fair-for-all/reducing-health-inequalities-through-primary-care/teg-i-bawb-fair-for-all-strategic-action-plan/phw-healthinequalitiesactionplan-english-v1-0-pdf/
6. Fforwm Gwybodaeth i Gleifion. 2025. Datganiad safbwynt ar oedran darllen. Ar gael ar-lein yn: [Datganiad Safbwynt ar Oedran Darllen PIF | Fforwm Gwybodaeth i Gleifion](#)
7. [Iaith, Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Cymorth cyllido

Ni ddarparwyd unrhyw gefnogaeth ariannol i ddatblygu'r strategaeth hon

Buddiannau sy'n gwrthdaro

Nid oes unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro i'w datgan

Dyfynnu'r cyhoeddiad hwn

Caniateir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#) (OGL) ar yr amod y gwneir hynny'n fanwl gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Gweithio gyda'n gilydd for a healthier Wales